



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol)

Ymgynghoriad ar bŵer Cymwysterau Cymru i gyflwyno cosb ariannol os nad yw cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio

Dyddiad cyhoeddi: 22 Hydref 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 07 Ionawr 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol)

Trosolwg

Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn amrywiaeth eang o randdeiliaid a all gael eu heffeithio gan bŵer Cymwysterau Cymru i orfodi cosb ariannol os nad yw cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **07 Ionawr 2019** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Trowch i wefan Cymwysterau Cymru hefyd:

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/>

<https://www.qualificationswales.org/english/>

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Noddi Cymwysterau Cymru
Yr Is-adran Cwricwlwm
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost:

QualificationsWalesSponsorshipUnit@llyw.cymru

QualificationsWalesSponsorshipUnit@gov.wales

Ffôn: 0300 062 8627



@LIC_Addysg



Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Crynodeb	3
Diben yr ymgynghoriad	5
Y Cynnig	6
Casgliad	10

Rhagair y Gweinidog

Fe wnaeth Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (y Ddeddf) bennu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd yng Nghymru. Mae gwaith Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ar ddau brif nod:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn, mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn cyflwyno nifer o bwerau i Cymwysterau Cymru sy'n caniatáu iddo gymryd camau gorfodi yn erbyn cyrff dyfarnu fel bo'r angen.

Mae Adran 38 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Cymwysterau Cymru orfodi cosb ariannol ar gyrff ariannol a reoleiddir ganddo. Bydd unrhyw gosb ariannol a roddir yn cael ei phennu yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Bwriad y rheoliadau arfaethedig hyn yw pennu uchafswm neu derfyn uchaf y gosb ariannol y gall Cymwysterau Cymru ei gorfodi ar gyrff a reoleiddir ganddo.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â sut rydym ni'n bwriadu pennu terfyn uchaf y gosb ariannol y gall Cymwysterau Cymru ei rhoi i gorff dyfarnu. Bydd y rheoliadau arfaethedig hefyd yn ymdrin â sut i bennu trosiant corff dyfarnu at ddibenion cosb ariannol.

Hoffwn ategu pwysigrwydd ymateb i'r ymgynghoriad gan mai dyma'ch cyfle chi i sicrhau ein bod ni'n ystyried eich sylwadau wrth ddatblygu'r rheoliadau.



Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Crynodeb

Fe wnaeth Deddf Cymwysterau Cymru (y Ddeddf) sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd yng Nghymru. Mae Adran 38 y Ddeddf yn rhoi'r pwerau i Cymwysterau Cymru gyflwyno cosb ariannol ar gorff dyfarnu a reoleiddir ganddo, am beidio â chydymffurfio â'i Amodau Cydnabod Safonol a/neu unrhyw ofynion rheoleiddio eraill.

Dyma ddolen gyswllt i Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn ystod 2018. Maen nhw'n cynnwys amodau sy'n gysylltiedig â llywodraethu, cyllid ac addasrwydd i ddiben ymhlith amodau eraill.

Fersiwn Gymraeg

<http://qualificationswales.org/media/3370/170330-v60-amodau-cydnabod-safonol.pdf>

Fersiwn Saesneg

<http://qualificationswales.org/media/3371/170330-v60-standard-conditions-of-recognition.pdf>

Hefyd, mae rhestr o ddogfennau rheoleiddiol y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu gydymffurfio â nhw. Mae pedwar prif gategori o ddogfennau rheoleiddio sy'n cynnwys amodau, meini prawf, gweithdrefnau a pholisïau – gellir dod o hyd i'r rhain i gyd ar wefan Cymwysterau Cymru.

Fersiwn Gymraeg

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ein-dogfennau-rheoleiddiol/>

Fersiwn Saesneg

<https://www.qualificationswales.org/english/our-work/our-regulatory-documents/>

Fel sy'n ofynnol dan Adran 47 y Ddeddf, mae Cymwysterau Cymru wedi paratoi ac ymgynghori ar ddatganiad polisi sy'n cyflwyno'r amgylchiadau y gall gyflwyno cosb ariannol a'r ffactorau y bydd yn eu hystyried wrth bennu swm y gosb i'w chyflwyno dan yr adran honno.

Fersiwn Gymraeg

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymerwch-ran/ymgynghoriadau-ac-arolygon/ymgynghoriadau-ac-arolygon-sydd-wedi-dod-i-ben/consultation-on->

[complaints-about-awarding-bodies-regulatory-whistleblowing-policy-and-enforcement-powers/](http://www.qualificationswales.org/english/get-involved/consultations-and-surveys/closed-consultations-and-surveys/consultation-on-complaints-about-awarding-bodies-regulatory-whistleblowing-policy-and-enforcement-powers/)

Fersiwn Saesneg

<http://www.qualificationswales.org/english/get-involved/consultations-and-surveys/closed-consultations-and-surveys/consultation-on-complaints-about-awarding-bodies-regulatory-whistleblowing-policy-and-enforcement-powers/>

Nod Cymwysterau Cymru fydd defnyddio cosbau ariannol (a swm unrhyw gosb) mewn ffordd gymesur, dryloyw ac wedi ei thargedu. Mae'r pŵer i gyflwyno cosb ariannol yn rhan o bwerau rheoleiddio cyffredinol Cymwysterau Cymru ac felly'n un o amryw o gamau gweithredu posib y gallai eu hystyried. Mae ei Fframwaith Rheoleiddio yn cyflwyno ei ymagwedd at reoleiddio.

Ni fydd Cymwysterau Cymru yn gallu cadw unrhyw symiau o arian a gesglir o gosbau ariannol; bydd yr arian i gyd yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd cyrff dyfarnu yn gallu apelio yn erbyn penderfyniad Cymwysterau Cymru ar gosbau ariannol yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae Adran 38(3) y Ddeddf yn darparu y bydd terfyn uchaf y gosb ariannol y gall Cymwysterau Cymru ei rhoi yn cael ei phennu yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Ni fydd y terfyn uchaf yn pennu **union** swm y gosb y gall Cymwysterau Cymru ei chyflwyno. Mae'n bwysig nodi y bydd y rheoliadau yn darparu bod, yn amodol ar y terfyn hwn, swm unrhyw gosb ariannol yn cael ei bennu gan Cymwysterau Cymru gan ystyried unrhyw ffactorau a nodwyd yn ei bolisi Cosbau Ariannol, a fydd yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar ôl i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ddod i ben. Mae Cymwysterau Cymru wedi pwysleisio mai'r bwriad yw cyhoeddi'r polisi ar ôl ymgynghori ar y rheoliadau, ac wedi i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymeradwyo.

Bydd Cymwysterau Cymru bob amser yn gweithredu'n gymesur ac yn rhesymol yn unol â'i Fframwaith Rheoleiddio.

Diben yr ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn rhanddeiliaid a all gael eu heffeithio'n uniongyrchol o bosib gan bŵer Cymwysterau Cymru i roi cosb ariannol. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud y rheoliadau, a fydd yn pennu terfyn uchaf unrhyw gosb ariannol y gall Cymwysterau Cymru ei chyflwyno yn 2019.

Disgwylwn i'r rheoliadau gael eu trafod yn y Cynulliad Cenedlaethol yn 2019.

Y Cynnig

Y Gosb Ariannol Fwyaf

Cynigir na ddylai terfyn uchaf y gosb ariannol y gall Cymwysterau Cymru ei rhoi ar gorff dyfarnu fod yn uwch na 10 y cant o drosiant blynyddol y DU y corff yn y flwyddyn ariannol flaenorol cyn cyflwyno'r rhybudd o gosb ariannol.

Mae dogfennau cyhoeddus ar gael o'r cyfnod yr aeth Deddf Cymwysterau Cymru drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, pan ddywedodd Llywodraeth Cymru bod swyddogion o'r farn y gallai ffigur o 10 y cant o'r cyfanswm trosiant gael ei ystyried yn ormodol – ar gyfer sefydliadau llai a mwy – o gofio cyfran eu busnes a all gael ei wneud yng Nghymru mewn rhai achosion.

Fodd bynnag, nid yw swyddogion bellach o'r farn fod terfyn uchaf o 10 y cant ar gyfer cosb ariannol yn ormodol. Mae hyn oherwydd y rhesymau canlynol:

- Cafodd y datganiad hwn ei wneud cyn i'r polisi cosbau ariannol gael ei ddatblygu, ac efallai ei fod wedi ei wneud cyn i'r holl faterion gael eu hystyried yn llawn.
- Mae cyrff dyfarnu bach a mawr sy'n gweithredu yng Nghymru'n bennaf, rhai gyda throsiant o ddegau o filiynau, eraill â dim ond degau o filoedd o bunnoedd. Yn achos sefydliadau â throsiant bach, rhaid i derfyn uchaf y gosb ariannol sicrhau bod y swm yn ddigonol i fod yn ystyrlon, ac yn achos y cyrff dyfarnu mwy, rhaid i'r swm fod yn ddigon i ymdrin ag achosion difrifol posib o gamymddygiad.
- Terfyn uchaf yw'r ffigur o 10 y cant, ac nid yw wedi'i ddefnyddio hyd yma yn achos Ofqual yn Lloegr. Byddai Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda'r corff dyfarnu er mwyn pennu hyd a lled ei fusnes yng Nghymru, a pha gamau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa, ac ar ba gost. Byddai Cymwysterau Cymru yn gymesur wrth gyflwyno unrhyw gosb ariannol.
- Yn nogfen ddrafft Polisi Cosbau Ariannol Cymwysterau Cymru (2018), mae Cymwysterau Cymru yn nodi'r 17 ffactor y byddai'n eu hystyried wrth bennu maint y gosb. Mae'r rhain yn cynnwys effaith y toramod ar y farchnad a reoleiddir, gan gynnwys ar ddysgwyr yng Nghymru; cydweithio â'r ymchwiliad a faint o fusnes sydd gan y corff dyfarnu yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw gosb ariannol a gyflwynir gan Cymwysterau Cymru yn gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i phennu fesul achos unigol.
- Mae'r gosb ariannol yn un o gyfres o bwerau y gellid eu defnyddio os bydd corff dyfarnu wedi methu cydymffurfio ag amod sy'n ymwneud â'i gydnabyddiaeth. Nid cyflwyno caledi ariannol i gorff dyfarnu yw pwrpas cosb

ariannol. Dylai Cymwysterau Cymru fod yn gydradd â chyrff eraill fel Ofqual ac Ofgem ac ni ddylid ei ystyried fel corff sydd â llai o bwerau.

- Wrth benderfynu a ydyn nhw am roi cosb ariannol, a faint, mae polisi drafft Cymwysterau Cymru yn dweud y byddai'n ystyried unrhyw gamau rheoleiddiol cysylltiedig y maen nhw, neu reoleiddwyr eraill, wedi'u cymryd. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill gan gynnwys Ofqual a'r Council for the Curriculum, Examinations and Assessment (rheoleiddiwr cymwysterau Gogledd Iwerddon), sydd â memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Er bod Ofqual yn gallu rhoi cosbau ariannol, nid oes gan y Council for the Curriculum, Examinations and Assessment y pŵer i wneud hynny.
- Mae'r system yn cynnwys elfennau cadw cydbwysedd, gan fod corff dyfarnu yn gallu cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad cosb ariannol ac yn erbyn swm y gosb hefyd.

Gan ystyried y pwyntiau uchod, mae Llywodraeth Cymru bellach o'r farn bod terfyn uchaf o 10 y cant ar gyfer cosb ariannol yn rhesymol.

Cafodd terfynau is na 10 y cant eu hystyried gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ffafrio ffigurau eraill is er mwyn osgoi anghysondeb â rheoliadau eraill. Cap yw'r uchafswm o 10 y cant, a mater i Cymwysterau Cymru yw union lefelau'r cosbau ariannol. Nid yw gosod cap yn awgrymu unrhyw ragosodiad i bennu cosbau ariannol uchaf.

Y drefn o gyflwyno cosb ariannol

Cyn cyflwyno cosb ariannol, rhaid i Cymwysterau Cymru roi rhybudd i'r corff dyfarnu dan sylw o'i fwriad i wneud hynny.

Rhaid i'r hysbysiad wneud y canlynol:

- (a) cyflwyno rhesymau Cymwysterau Cymru am y bwriad i gyflwyno'r gosb
- (b) nodi swm arfaethedig y gosb
- (c) nodi o fewn pa gyfnod penodol y bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu ai cyflwyno'r gosb.

Rhaid i'r cyfnod penodol yn (c) uchod fod yn gyfnod sy'n cychwyn o leiaf 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad. Wrth benderfynu ai cyflwyno cosb, rhaid i Cymwysterau Cymru ystyried unrhyw sylwadau gan y corff dyfarnu.

Gall corff dyfarnu gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i gyflwyno cosb ariannol (ar y seiliau a nodwyd yn adran 38(2)) neu yn erbyn

penderfyniad ynghylch swm y gosb. Gyda'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar waith, bydd elfennau cadw cydbwysedd yn y system.

Pennu'r Trosiant

Rôl Gweinidogion Cymru wrth bennu trosiant yw diffinio beth yn union a olygir gan y term "trosiant" at ddibenion cosbau ariannol. Bydd Cymwysterau Cymru wedyn yn gallu defnyddio'r diffiniad hwn er mwyn pennu trosiant corff dyfarnu at ddibenion cyflwyno cosb ariannol ar y corff hwnnw.

Bydd trosiant yn seiliedig ar incwm o bob gweithgaredd perthnasol arferol yn hytrach nag ar weithgaredd wedi'i reoleiddio'n unig, gan fod nifer o gyrrff dyfarnu nad ydynt yn derbyn incwm o weithgaredd a reoleiddir. Bydd polisi Cymwysterau Cymru, fodd bynnag, yn ystyried incwm o weithgareddau a reoleiddir fel rhan o'i ystyriaethau ynghylch cyflwyno cosb ariannol i gyrrff dyfarnu sy'n torri un o amodau cydnabyddiaeth.

Drwy'r ddogfen ymgynghori hon a'r rheoliadau arfaethedig, rydym yn cynnig y byddai Cymwysterau Cymru yn pennu trosiant y DU corff dyfarnu, lle bo'n bosibl, yn unol â blynyddoedd ariannol cyfan. Os nad yw corff dyfarnu ar waith am flwyddyn ariannol lawn eto, byddai Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i amcangyfrifo trosiant blwyddyn gyfan.

Mae Gweinidogion wedi bod yn ystyried opsiwn o bennu'r gosb ariannol uchaf trwy gyfeirio at weithgareddau a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru yn unig. Byddai gweithgaredd a reoleiddir ar gyfer y dibenion hyn yn golygu holl weithgareddau corff dyfarnu sy'n ymwneud â dyfarnu cymwysterau yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn yn ymarferol gan nad oes modd dadgyfuno cyfrifon cyrrff cyhoeddus er mwyn gwahanu trosiant yng Nghymru. Yn dibynnu ar y wlad y mae'r corff dyfarnu wedi cofrestru, byddai trosiant naill ai ar sail y DU neu ar sail Lloegr a Chymru gyda'i gilydd.

Hefyd, byddai'n anodd gwahaniaethu'n glir refeniw sy'n gysylltiedig â dyfarnu cymwysterau. Er bod y rhan fwyaf o gyrrff dyfarnu yn cael incwm yn uniongyrchol o ffioedd cymwysterau, mae'r incwm yn aml yn cael ei ategu gan amrywiaeth o wasanaethau ategol.

At ddibenion y rheoliadau hyn, trosiant corff dyfarnu cydnabyddedig yw 'the sum of all amounts derived by the body from the provision of goods and services falling within the body's ordinary activities in the United Kingdom' a bydd yn cael ei gyfrifo yn unol â'r egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU.

Bydd y ffigur hwn yn cael ei leihau gan ddiwydiadau ar gyfer treth ar werth a threthi perthnasol eraill. Bydd y broses o bennu trosiant ond yn berthnasol i'r sefydliad a gydnabyddir fel corff dyfarnu ac nid i'r rhiant-sefydliad neu sefydliad cysylltiedig.

Mae'r diffiniad hwn o drosiant yn gyson â'r diffiniad yng ngorchymyn *The Office of Qualifications and Examinations Regulation (Determination of Turnover for Monetary Penalties) Order 2012* a gyflwynwyd er mwyn caniatáu i Ofqual, rheoleiddiwr cymwysterau Lloegr, i gyflwyno cosbau ariannol.

Casgliad

Felly, rydym yn gofyn i chi ymateb i'r cwestiynau isod ar y cynnig i bennu'r gosb ariannol uchaf y byddai Cymwysterau Cymru yn gallu ei chyflwyno i gorff dyfarnu yng Nghymru. Rydym hefyd yn gofyn i chi ymateb i'r diffiniadau sy'n ymwneud â phennu trosiant corff dyfarnu.

Byddwn yn ystyried eich sylwadau ac maen nhw'n bwysig i ni. Byddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r broses ymgynghori hon maes o law.